

## Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, gwerthoedd a moeseg

**Ffurflen ymateb  
i'r  
ymgyngoriad**

Eich enw: BUDDUG MAIR HUWS

Sefydliad (os yw'n berthnasol): CYSAG Gwynedd

e-bost/rhif ffôn: buddugmairhuws@gwynedd.llyw.cymru

Eich cyfeiriad:

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **28 Gorffennaf 2020** i:

Cangen y Celfyddydau, y Dyniaethau a Llesiant  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: [YmgynghoriadCGM@llyw.cymru](mailto:YmgynghoriadCGM@llyw.cymru)

**Cwestiwn 1** – A ydych yn cytuno y dylai crefydd, gwerthoedd a moeseg gwmpasu credoau crefyddol ac anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol (yn unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol) fel y'u disgrifir yn y ddogfen ymgynghori?

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

Mae addysg grefyddol eisoes yn cynnwys safbwyntiau anghrefyddol ochr yn ochr â safbwyntiau crefyddol, fel y mae manylebau CBAC yn dangos. Mae'n rhaid i'r canllawiau (cwestiwn 2) sicrhau nad yw hyn yn arwain at leihau'r elfen grefydd yn y cwricwlwm na gorlwytho cynnwys y cwricwlwm trwy gynnwys rhestr faith o argyhoeddiadau athronyddol. Mae'n rhaid i'r dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth ddigonol o grefydd i gyflawni'r diben o'u gwneud yn "ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd". Mae athroniaeth ei hun yn ddisgyblaeth academaidd ar wahân.

**Cwestiwn 2** – A ydych yn cytuno y dylai cynadleddau meysydd llafur cytunedig **ystyried** canllawiau statudol wrth ddatblygu eu maes llafur cytunedig lleol?

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

Mae canllawiau statudol yn sicrhau bod gan ddysgwyr ledled Cymru gorff cyffredin o wybodaeth fel sail ar gyfer arholiadau TGAU a Safon Uwch. Fodd bynnag, mae angen diffinio beth mae "ystyried" yn ei olygu yn y cyd-destun hwn a sicrhau bod gan gynadleddau meysydd llafur cytunedig ddigon o ddisgresiwn i ddilyn blaenoriaethau lleol. Dylasid cyhoeddi'r Fframwaith cyn ymgynghori ar y cwestiwn hwn. Mae'n bwysig bod unrhyw ganllawiau statudol yn uchafu statws addysg grefyddol yn wyneb y pryder y gallai newid enw'r pwnc yn Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg wanhau ei statws ac efallai gael effaith ar y niferoedd sy'n dewis Addysg Grefyddol ar gyfer TGAU a Safon Uwch.

**Cwestiwn 3** – A ydych yn cytuno â'n cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cymunedol a sefydledig ac ysgolion gwirfoddol **heb nodweddion crefyddol** ystyried maes llafur cytunedig wrth ddylunio crefydd, gwerthoedd a moeseg a'i roi ar waith?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

Cytuna CYSAG Gwynedd y dylai'r ysgolion hyn ystyried y maes llafur cytunedig lleol (nid unrhyw faes llafur cytunedig) ond dylai fod yn ofynnol iddynt ei gorffori yn eu cwricwlwm,

nid ei “ystyried” yn unig. Mae’r cwricwlwm newydd yn rhoi llawer o gyfleoedd i amlygu addysg grefyddol o fewn y dyniaethau ond mae perygl na fyddai rhai ysgolion yn gwneud y gorau o’r cyfleoedd hyn, yn enwedig os nad yw pennaeth yr adran yn arbenigwr yn y pwnc. Nid bwriad y cwricwlwm newydd i Gymru yw gwanhau addysg grefyddol ond gallai hyn ddigwydd pe caniateid i ysgolion beidio â dilyn y maes llafur cytunedig; ni fyddai’r dysgwyr yn datblygu’r sgiliau penodol i’r pwnc ac efallai byddai llai yn ei ddewis ar gyfer TGAU a Safon Uwch. Gellir mynd i’r afael â’r broblem hon trwy sicrhau bod y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn datblygu maes llafur da, plwraliaethol a bod yr ysgolion yn ei ddilyn. Byddai hyn yn galluogi CYSAGau i gyflawni eu dyletswydd o fonitro safonau addysg grefyddol yn yr ysgolion.

**Cwestiwn 4** – A ydych yn cytuno â’n cynnig na chaiff rhieni/gofalwyr dysgwyr mewn ysgolion **heb nodweddion crefyddol** ofyn i ysgol addysgu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â daliadau ffydd benodol mwyach?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

Mae’r cwricwlwm yn eang, cytbwys a phlwraliaethol, heb geisio efengylu. Mae’n addas i bawb, gan gynnwys rhieni sydd â daliadau ffydd benodol. O ganlyniad, yn anaml iawn y mae rhieni yn gweithredu eu hawl i ofyn i’w plant gael addysg yn unol â daliadau eu ffydd benodol. Felly nid oes angen newid y trefniadau presennol; gallai tynnu’r hawl hon dorri hawliau dynol rhieni a gallai olygu bod mwy o ddysgwyr yn cael eu haddysgu gartref.

**Cwestiwn 5** – A ydych yn cytuno â’r cynnig y dylai ysgolion gwirfoddol a reolir â **nodweddion crefyddol** allu addysgu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol **os bydd rhieni/gofalwyr yn gofyn iddynt wneud hynny?**

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

Dylai paragraff 24 ei gwneud yn glir bod yr hawl i riant fynnu bod yr ysgol yn addysgu’r pwnc yn unol â daliadau ffydd yr ysgol yn gyfyngedig i blant y rhiant dan sylw yn unig, nid yr ysgol gyfan. Os felly, nid yw’r cynnig hwn yn newid y sefyllfa bresennol.

**Cwestiwn 6** – A ydych yn cytuno y dylai fod yn **ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â nodweddion crefyddol** addysgu yn unol â’r maes llafur cytunedig **os bydd rhiant/gofalwr yn gofyn iddynt wneud hynny**, ac a ddylai fod ganddynt ddisgresiwn i wrthod cais o’r fath?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

Ni chredwn ei bod yn deg gorfodi ysgol i ddarparu dau faes llafur, gan roi baich ychwanegol sylweddol ar yr athrawon. Gallai'r cynnig hwn rannu'r dysgwyr yn ddwy garfan o fewn yr ysgol o ran addysg grefyddol. Gallai hyn amharu ar ethos gwerthfawr yr ysgol ffydd. Mae addysg grefyddol enwadol yn rhannu'r un dibenion addysgol â'r addysg sy'n dilyn maes llafur cytunedig; mae'n addysgu nid yn credorfodi. Credwn y dylai'r ysgolion gadw eu disgrisiwn i wrthod cais o'r fath os yw amgylchiadau yn golygu bod ei dderbyn yn afresymol.

**Cwestiwn 7** – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn mewn perthynas â chrefydd, gwerthoedd a moeseg yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Mae'r pwnc yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddysgwyr ehangu eu geirfa yn Gymraeg a thrafod gwahanol gysyniadau a safbwyntiau crefyddol a moesegol trwy gyfrwng yr iaith. Er mwyn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mae angen sicrhau bod yr adnoddau Cymraeg yn cael eu darparu ar yr un pryd â'r rhai Saesneg. Mae CYSAG Gwynedd wedi tynnu sylw'r Gweinidog at y ffaith fod adnoddau Cymraeg yn aml wedi cael eu cyhoeddi ar ôl yr adnoddau Saesneg ac yn hwyr iawn yn y dydd. Rydym wedi cael addewid y bydd y sefyllfa yn gwella ac mae'n rhaid sicrhau bod hyn yn digwydd.

**Cwestiwn 8** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig ar grefydd, gwerthoedd a moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

fel gyda chwestiwn 7, dylai'r polisi gael ei lunio i gynnwys darparu'r holl adnoddau sydd ar gael i athrawon a dysgwyr yn ddwyieithog ac yn amserol.

**Cwestiwn 9** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw bryderon nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Paragraff 17: Cytunwn y dylid cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau sydd ag argyhoeddiadau anghrefyddol athronyddol mewn CYSAGau, fel y mae CYSAG Gwynedd a nifer o GYSAGau eraill wedi gwneud eisoes. Ni chredwn fod angen creu grŵp newydd i'w cynrychioli ac ni ddylid gwneud hynny ond yn hytrach dylid eu cynnwys ym Mhwyllgor A gyda chynrychiolwyr y grwpiau crefyddol. Os yw daliadau athronyddol yn gyfatebol i ddaliadau crefyddol dylai cynrychiolwyr yr holl ddaliadau hyn fod yn yr un grŵp, yn hytrach nag mewn grwpiau ar wahân. Mae hyn yn cadw'r cydbwysedd rhwng y tri grŵp: yr awdurdod addysg lleol sy'n darparu'r ysgolion, yr athrawon sy'n darparu'r addysg, a'r cynrychiolwyr sy'n darparu arbenigedd mewn crefydd, gwerthoedd a moeseg. Nid oedd yn deg cynnal yr ymgynghoriad hwn yn ystod cyfnod y pandemig pan oedd yn anodd i bobl gyfarfod i drafod y materion pwysig hyn. Oherwydd bod yn rhaid i Gyngor Gwynedd flaenoriaethu ei adnoddau i gynnal gwasanaethau hanfodol a chefnogi ein cymunedau, ein busnesau a'n pobl, nid oedd yn bosibl i GYSAG Gwynedd gyfarfod wyneb yn wyneb nac yn rhithiol yn ystod y cyfnod er mwyn cynnal trafodaeth agored a thrylwyr. Y cyfan oedd yn bosibl oedd rhannu e-byst ayb. Ar ben hynny, nid wyf yn credu bod y ddogfen ymgynghorol yn dangos dealltwriaeth glir o addysg grefyddol yn ein hysgolion. Credaf felly y dylid cynnal ymgynghoriad llawnach ar ôl i'r Fframwaith gael ei gyhoeddi pan fydd yn bosibl rhoi ystyriaeth deg i'r mater.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma

